

Calendr Digwyddiadau Myfyrwyr a Goruchwylwyr Ymchwil Ôl-raddedig 2019/20

Datblygu sgiliau ymchwilwyr ym Mhrifysgol De Cymru

Mae Ysgol y Graddedigion Prifysgol De Cymru yn darparu'r amgylchedd gorau posib i ymchwilwyr ôl-raddedig gyflawni eu llawn botensial yng nghyfnod cynnar eu gyrfaedd ymchwil. Mae Ysgol y Graddedigion yn dod ag ymchwilwyr ôl-raddedig o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau at ei gilydd i un gymuned, a chaiff eu hanghenion eu cefnogi'n effeithiol drwy ystod o gyfleoedd datblygu a mentora.

Nod Ysgol y Graddedigion yw sbarduno cyfleoedd arloesol ar gyfer datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol a gwella'r amgylchedd i ymchwilwyr ôl-raddedig, ac mae'r rhaglen ddigwyddiadau hon yn allweddol er mwyn cyflawni'r dyhead hwn.

Beth gallwn ni ei gynnig i chi fel myfyriwr

Mae Ysgol y Graddedigion Prifysgol De Cymru yn ymgysylltu â staff ymchwil profiadol y Brifysgol i ddarparu cyfleoedd datblygu sgiliau credadwy o ansawdd da i fyfyrwyr. Mae hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil aml-ddisgyblaethol ac i groesi ffiniau disgyblaethau, drwy wneud defnydd llawn o gyfleusterau Ysgol y Graddedigion ar Gampws Pontypridd ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant.

Y Coleg Cymraeg – Rhaglen Sgiliau ymchwil

Diben y rhaglen Sgiliau Ymchwil yw cefnogi myfyrwyr ymchwil cyfrwng Cymraeg, a dyma'r unig raglen hyfforddiant ymchwil ar gyfer ein myfyrwyr ôl-raddedig ac academyddion ar ddechrau eu gyrfa sydd ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/rhaglensgiliauymchwil/>

Gwasanaeth Sgiliau Astudio a Datblygu Myfyrwyr

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor, gwybodaeth ac adnoddau i helpu myfyrwyr Prifysgol De Cymru i gynyddu eu dyheadau, i wella eu perfformiad academaidd ac i ddatblygu sgiliau y mae modd eu trosglwyddo i swydd gyflogedig. Ewch i: <http://studyskills.southwales.ac.uk/> i gael rhagor o wybodaeth

Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd

Mae canran uchel o raddedigion ymchwil ôl-raddedig yn mynd ymlaen i geisio gyrfa y tu allan i'r byd academaidd, mae cefnogaeth gan y gwasanaeth Gyrfaedd ar gael yma:

<http://careers.southwales.ac.uk/>

Vitae

Sefydliad cenedlaethol yw Vitae sy'n hyrwyddo datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol ymchwilwyr doethuriaeth a staff ymchwil ym mhrifysgolion gwledydd Prydain. Mae Vitae yn darparu adnoddau, cyngor a gwybodaeth i ymchwilwyr ôl-raddedig unigol ac aelodau o staff ymchwil sydd â diddordeb yn eu datblygiad proffesiynol a'u gyrfaoedd. Mae'r Brifysgol yn aelod sefydliadol o Vitae, ac fel myfyriwr neu aelod o staff gallwch gofrestru gyda'ch cyfeiriad e-bost prifysgol i gael mynediad am ddim at adnoddau Vitae <http://www.vitae.ac.uk/amdanon-ni/>.


Ymchwil ac Arloesi y DU

Corff newydd yw Ymchwil ac Arloesi y DU sy'n gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau ymchwil, busnesau, elusennau a'r llywodraeth i greu'r amgylchedd gorau posib i ymchwil ac arloesedd ffynnu. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.ukri.org/>

Fframwaith Datblygu Ymchwil

Mewn partneriaeth ag Ymchwil ac Arloesi y DU, mae Vitae wedi cyhoeddi Fframwaith Datblygu Ymchwil, sef teclyn ar gyfer cynllunio, hyrwyddo a chefnogi datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol ymchwilwyr ym maes addysg uwch. Mae'n disgrifio gwybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a rhinweddau personol ymchwilwyr, ac yn eu hannog i anelu at ragoriaeth drwy gyflawni lefelau uwch o ddatblygiad. Mae'n manylu ar y cymwyseddau y gallant anelu amdanynt ar wahanol gamau o'u gyrfaoedd.

Crëwyd y Fframwaith Datblygu Ymchwil ar sail data empirig, a gasglwyd drwy gyfweild ag ymchwilwyr, i nodi beth yw nodweddion ymchwilwyr ardderchog, a gaiff eu cyfleu yn y Fframwaith Datblygu Ymchwil fel 'disgrifyddion'. Mae'r disgrifyddion wedi'u strwythuro yn ôl pedwar maes a deuddeg is-faes, sy'n cwmpasu'r wybodaeth, y gallu deallusol, y technegau a'r safonau proffesiynol i wneud ymchwil, ynghyd â rhinweddau personol, gwybodaeth a sgiliau i weithio gydag eraill ac i sicrhau effaith ehangach yr ymchwil. Mae pob un o'r chwe deg tri disgrifydd yn cynnwys rhwng tri a phump cyfnod, sy'n cynrychioli camau datblygiad neu lefel perfformiad amlwg yn y disgrifydd hwnnw.



Caiff pob un o'n gweithdai eu mapio'n ôl i un maes neu fwy yn y Fframwaith Datblygu Ymchwil, sy'n cynnwys:

- A** Gwybodaeth a Gallu Deallusol
- B** Effeithiolrwydd Personol
- C** Trefn lywodraethol a threfniadaeth yr ymchwil
- D** Ymgysylltu, dylanwad ac effaith

Y Broses Archebu

Cymerir archebion ymlaen llaw ar gyfer pob sesiwn a gellir gwneud hyn drwy PhD Manager ar gyfer myfyrwyr neu drwy e-bostio Gradschool@southwales.ac.uk ar gyfer aelodau staff. Os bydd unrhyw newidiadau i'r archebion byddwch yn derbyn hysbysiad e-bost. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r lleoliad a'r amseroedd y diwrnod cyn y sesiwn yr ydych wedi archebu ar ei gyfer rhag ofn y bydd unrhyw newidiadau.

Os bydd sesiwn yn llawn, fe'ch ychwanegir at "restr aros" ac os daw lle yn rhydd, cysylltir â chi drwy e-bost. Atebwch yn brydlon i dderbyn lle oherwydd efallai y bydd myfyrwyr eraill yn aros.

Moesau proffesiynol

Cyn archebu lle cofiwch eich bod yn cytuno i:

- Mynychu'r sesiwn am ei hyd llawn.
- Cyrraedd yn brydlon ar gyfer y sesiwn.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n digwydd fel rhan o'r sesiwn.
- Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau cyn neu ar ôl digwyddiadau yn ôl y gofyn.

Sicrhewch eich bod yn cynllunio eich ymrwmiadau hyfforddiant; ceisiwch osgoi ymrwmo i lawer o weithgareddau, na allwch eu mynychu efallai oherwydd diffyg amser.

Os ydych yn rhedeg yn hwyr, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl, naill ai dros y ffôn neu anfonwch e-bost i'r Ysgol Graddedigion.

Os ydych yn canfod nad ydych yn gallu bod yn bresennol cysylltwch â ni i roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl, gorau po gyntaf y byddwn yn gwybod fel bod cyfle i lenwi'ch lle yn y sesiwn. A fydddech cystal â chanslo eich lle ar PhD Manager a hefyd anfon neges e-bost at yr Ysgol Graddedigion i roi gwybod i ni.

Rydym yn monitro presenoldeb, cansladau a "heb droi fyny" a throsglwyddir y wybodaeth hon i'r Pennaeth Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig yn rheolaidd i'w hadolygu.

Beth sy'n digwydd? Ciplwg...

Hydref

9 Hydref 2019	Sefydlu ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig Newydd	Tudalen 7
16 Hydref 2019	Goruchwylio Ymchwil ar Fynd	Tudalen 22
23 Hydref 2019	Datblygu Arferion Gorau wrth Oruchwylio Ymchwil gyda John Wakeford (Modiwlau 1 a 2)	Tudalen 22
30 Hydref 2019	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Tachwedd

6 Tachwedd 2019	Ehangu Gorwelion – Y Tu Hwnt i Academia	Tudalen 14
6 Tachwedd 2019	Gwthio Trwodd i Flwyddyn 2	Tudalen 8
13 Tachwedd 2019	Datblygiad Addysgu Ymchwilwyr	Tudalen 7
20 Tachwedd 2019	Seminar Arholi Gradd a Chadeirio Viva	Tudalen 23
27 Tachwedd 2019	NVivo ar rhedeg	Tudalen 12
27 Tachwedd 2019	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Rhagfyr

4 Rhagfyr 2019	Ysgrifennu Cynhyrchiol: technegau, cynllunio a gorffen	Tudalen 9
4 Rhagfyr 2019	Cyhoeddi neu drengi: Cyhoeddi Academaidd yn gwyno	Tudalen 10
11th Rhagfyr 2019	Yr Adolygiad Llenyddiaeth: beth ydyw a ble i ddechrau	Tudalen 8
11th Rhagfyr 2019	Cyflwyniad i Fynediad Agored	Tudalen 15
11th Rhagfyr 2019	Cyflwyniad i Reoli Data Ymchwil	Tudalen 15

Ionawr

8 Ionawr 2020	Sefydlu ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig Newydd	Tudalen 7
15 Ionawr 2020	Gwthio Trwodd i Flwyddyn 2 (cohort Ebrill 2019)	Tudalen 8
22 Ionawr 2020	Goruchwylio Ymchwil ar Fynd	Tudalen 22
29 Ionawr 2020	Cyflwyniad i Ddadansoddiad Ystadegol gan ddefnyddio R	Tudalen 17
29 Ionawr 2020	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Chwefror

5 Chwefror 2020	Gweithdy Ysgrifennu Ceisiadau Grant	Tudalen 21
5 Chwefror 2020	Deall Effaith Ymchwil	Tudalen 21
12 Chwefror 2020	Gorffen: Ysgrifennu traethawd ymchwil, cyflwyno ac arholi	Tudalen 11
19 Chwefror 2020	Dadansoddiad Ystadegol uwch gan ddefnyddio R	Tudalen 18
26 Chwefror 2020	Seminar Arholi Gradd a Chadeirio Viva	Tudalen 23
26 Chwefror 2020	Bydd dawel a Sgwenna (B108)	Tudalen 13

Mawrth

4 Mawrth 2020	Yr Adolygiad Llenyddiaeth: beth ydyw a ble i ddechrau	Tudalen 8
11 Mawrth 2020	Cyflwyniad i Fynediad Agored	Tudalen 15
11 Mawrth 2020	Cyflwyniad i Reoli Data Ymchwil	Tudalen 15
18 Mawrth 2020	Datblygu Arferion Gorau wrth Oruchwylio Ymchwil gyda John Wakeford (Modiwlau 3 a 4)	Tudalen 22
18 Mawrth 2020	Goruchwylio Ymchwil ar Fynd (Caerdydd)	Tudalen 25
25 Mawrth 2020	Cynhyrchu effaith o'ch PhD	Tudalen 16
27 Mawrth 2020	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Ebrill

1 Ebrill 2020	Datblygiad Addysgu Ymchwilwyr	Tudalen 8
1 Ebrill 2020	NVivo ar Rhedeg	Tudalen 12
8 Ebrill 2020	Sefydlu ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig Newydd	Tudalen 7
22 Ebrill 2020	Sgiliau Cyfryngau Cymdeithasol i Ymchwilwyr	Tudalen 14
24 Ebrill 2020	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Mai

4 Mai 2020	Rheoli amser, cymhelliant a blaenoriaethu'ch llwyth gwaith	Tudalen 20
4 Mai 2020	Technoleg a Theclynnau: dewis o blith dros 1000 o opsiynau	Tudalen 19
13 Mai 2020	Ehangu Gorwelion	Tudalen 14
13 Mai 2020	Seminar Arholi Gradd a Chadeirio Viva	Tudalen 23
20 Mai 2020	Gorffen: Ysgrifennu traethawd ymchwil, cyflwyno ac arholi	Tudalen 11
20 Mai 2020	Sgiliau Cyflwyno: Sut i gyfleu eich neges	Tudalen 12
22 Mai 2020	Ysgrifennu ar gyfer Cynulleidfa Gyhoeddus	Tudalen 11
27 Mai 2020	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Mehafin

3 Mehefin 2020	Gwthio Trwodd i Flwyddyn 2 (cohort Hydref 2019)	Tudalen 8
10 Mehefin 2020	Cyflwyniad i Ddadansoddiad Ystadegol gan ddefnyddio R	Tudalen 17
17 Mehefin 2020	Diwrnod Cyflwyniadau Ymchwilwyr Ôl-raddedig	Tudalen 13
27 Mehefin 2020	Bydd dawel a Sgwenna	Tudalen 13

Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am Ysgol Graddedigion PDC, ewch i <http://gradschool.southwales.ac.uk> ac i archebu lle ar unrhyw un o'n digwyddiadau, mewngofnodwch i PhD Manager a chael mynediad i bob digwyddiad drwy eich Calendr.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ar gyfer sesiynau hyfforddi a datblygu sydd heb eu cynnwys yn y Calendr Digwyddiadau hwn, cysylltwch â gradschool@decymru.ac.uk i drafod.

Gweithdai

Mae'r gweithdai canlynol yn fwy perthnasol i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf:

Sefydlu ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig Newydd

Croeso i'r Brifysgol gan gynnwys cyflwyniad i Reoliadau Gradd Ymchwil y Brifysgol yn cynnwys disgwyliadau myfyrwyr a goruchwylwyr, monitro dilyniant ac asesu graddau ymchwil, yn ogystal â chalendr digwyddiadau PDC i Ôl-raddedigion Ymchwil. Cyflwynir myfyrwyr ymchwil i'r gwasanaethau sydd ar gael yn y llyfrgell i gefnogi ymchwilwyr a throsolwg o fframwaith Llywodraethu a Moesegol y Brifysgol.

Parthau RDF:

A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1, A2
 B Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
 C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C1, C2, C3
 D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 9fed Hydref 2019, Dydd Mercher 8fed Ionawr 2020 a Dydd Mercher 8fed Ebrill 2020.

Bydd y sesiynau'n cychwyn am 10.30am ac yn dod i ben am tua 4pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Datblygiad Addysgu Ymchwilwyr – gweithdy cyflwyniadol

Mae'r sesiwn hon ar gyfer pob myfyriwr PGR sy'n dymuno ymgymryd â gwaith HPL neu sy'n cynllunio gyrfa mewn academia:

- Bod yn athro mewn addysg uwch yng Nghymru.
- Beth sy'n gwneud athro da.
- Sut mae myfyrwyr yn dysgu.
- Asesu gwaith myfyrwyr.
- Sut ydych chi'n gwybod bod yr hyn rydych chi'n ei wneud yn gweithio.

Parthau RDF:

A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A3
 B Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
 D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 13 Tachwedd 2019 a Dydd Mercher 1 Ebrill 2020.

Bydd y sesiynau'n cychwyn am 9am ac yn gorffen am 4.30pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 20

Gwthio Trwodd i Flwyddyn 2

Cynlluniwyd y gweithdy hwn i gwmpasu'r cyfnod pontio i flwyddyn 2, yn cynnwys cysylltiadau ag ymchwilwyr, paratoi eich adroddiad trosglwyddo a pharatoi ar gyfer trosglwyddo viva, gan ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng y myfyriwr/goruchwyliwr a'r disgwyliadau, myfyrio ar y flwyddyn gyntaf a sut i aros yn frwdfrydig ac yn hapus.

Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd gan ymchwilwyr:

- trosolwg clir o'r broses drosglwyddo a'r gweithdrefnau;
- dealltwriaeth o ddisgwyliadau myfyrwr/goruchwyliwr;
- gallu cyfleu ymchwil;
- sut i aros yn frwdfrydig ac ar y trywydd cywir i gwblhau yn ystod cyfnod talu ffioedd.

Parthau RDF:

A Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1

B Effeithiolrwydd Personol: B2, B3

C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C2

Dyddiadau: Dydd Mercher 6 Tachwedd 2019 (cohort Ionawr 2019) 1pm – 4pm.

Dydd Mercher 15 Ionawr 2020 (cohort Ebrill 2019) 10am – 1pm.

Dydd Mercher 3 Mehefin 2020 (cohort Hydref 2020) 10am – 1pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

TC015, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest (sesiwn Mehefin).

Uchafswm maint dosbarth: 25

Yr Adolygiad Llenyddiaeth: beth ydyw a ble i ddechrau

P'un a ydych yn dilyn cwrs Meistr drwy Ymchwil neu PhD bydd y sesiwn hon yn eich helpu i ddatblygu eich technegau ysgrifennu gan ganolbwyntio'n benodol ar yr adolygiad llenyddiaeth.

Parthau RDF:

A Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A3

B Effeithiolrwydd Personol: B1

D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 11eg Rhagfyr 2019 a dydd Mercher 4ydd Mawrth 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 10am a bydd yn para am 2 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Mae'r gweithdai canlynol yn fwy perthnasol i fyfyrwyr yn eu Hail Flwyddyn Gofrestru:

Ysgrifennu Cynhyrchiol: technegau, cynllunio a gorffen

Sut ydych chi'n cychwyn y broses ysgrifennu pan mai tudalen wag yn unig sydd o'ch blaen neu gyrchwr sy'n blincio'n ddi-stop ar y sgrin? Mae cyfathrebu ysgrifenedig effeithiol yn rhan hanfodol o academia ac mae gofyn i ymchwilwyr ysgrifennu amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynigion, traethodau, papurau ar gyfer eu cyhoeddi, cynigion grant a llyfrau. Rhaid i'r llawysgrifau fod yn glir a chryno ac wedi'u hysgrifennu mewn modd sy'n briodol ar gyfer y math penodol hwnnw o ddogfen. Mae prosiectau ysgrifennu ysgolheigaidd yn cynnwys cynllunio, drafftio trefniadau, pennu terfynau amser a chydweithredu.

Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar sut i ddechrau ysgrifennu, sut i barhau a sut i orffen. Byddwn yn ymdrin â gwahanol arddulliau o ddogfennau, iaith a'r arddull ysgrifennu academaidd, yn ogystal â sut i gynllunio eich ysgrifennu a chyflwyniad byr i offer ysgrifennu cydweithredol newydd.

Bydd y gweithdy'n cynnwys ymarferion ysgrifennu, cyngor ar wneud ysgrifennu'n rhan o'ch trefn waith ac adran fer ar ddelio ag adborth a rhoi adborth.

Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd ymchwilwyr:

- wedi'u cyflwyno i ystod o dechnegau cynhyrchu ysgrifennu;
- cynllunio llawysgrif o'r newydd;
- trafod heriau ysgrifennu amrywiol gyda'u cyfoedion;
- dechrau cynllun gwaith i bennu terfynau amser ar gyfer eu prosiect ysgrifennu.

Parthau RDF:

- A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A2
- B Effeithiolrwydd Personol: B2, B3

Dyddiad: Dydd Mercher 4ydd Rhagfyr 2019.

Sesiwn yn cychwyn am 9am ac yn dod i ben am 12.15pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Cyhoeddi neu drengi: Cyhoeddi Academaidd yn gryno

Mae cyhoeddi eich gwaith a rhannu eich canfyddiadau yn elfen allweddol o yrfa ymchwil llwyddiannus. Mae angen buddsoddiad amser sylweddol i gyhoeddi papur yn llwyddiannus a defnyddir sawl sgil yn ystod y broses gan gynnwys ysgrifennu cydweithredol, dylunio ffigurau, dadansoddi a chyfathrebu ysgrifenedig cryno. Gyda 30,000 o gyfnodolion i ddewis ohonynt ac amrywiol fodolau cyhoeddi i'w hystyried, mae angen i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o ba opsiwn fydd yn gweithio orau iddynt.

Mae cyhoeddi academaidd yn esblygu ar hyn o bryd a bu sawl datblygiad newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gofynion ar gyfer mynediad agored a rheoliadau newydd. Cyflwynir y rhai sy'n cymryd rhan i'r broses olygyddol, gwahanol fodolau cyhoeddi, cyhoeddi mynediad agored, ystyriaethau cyfreithiol a sut i lywio'r broses gyhoeddi academaidd. Cynlluniwyd y gweithdy hwn i ymdrin â'r camau a'r materion allweddol y tu ôl i gyhoeddi papur ymchwil gan gynnwys paratoi llawysgrif, dewis y cyfnodolyn priodol ac adolygiad gan gymheiriaid. Yn ogystal, bydd yn cynnwys cyflwyniad i bwnc llosg metrigau.

Defnyddir profiad cyhoeddi'r hyfforddwr ei hun i ddarlunio pwyntiau allweddol.

Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd gan ymchwilwyr:

- trosolwg clir o'r broses gyhoeddi a'r ffrâm amser cysylltiedig;
- dealltwriaeth o fynediad agored a hawlfraint a sut mae hyn yn berthnasol i gyfathrebu ysgolheigaidd;
- dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol gan awduron.

Parthau RDF:

A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1
 C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C1
 D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 4ydd Rhagfyr 2019.

Sesiwn yn cychwyn am 1pm a bydd yn para am 3 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Mae'r gweithdai canlynol yn fwy perthnasol i fyfyrwyr yn eu Trydedd Flwyddyn Gofrestru:

Gorffen: Ysgrifennu traethawd ymchwil, cyflwyno ac arholi

Cynlluniwyd y gweithdy hwn i roi sgiliau i gyfranogwyr i orffen eu PhD yn llwyddiannus a symud ymlaen i gam nesaf eu gyrfaedd.

Bydd y pynciau a drafodir yn y cwrs hwn yn cynnwys:

- Adolygu a chymhwyso proses 7-cam yr hyfforddwr PhD ar gyfer cwblhau eich PhD.
- Strategaethau ar gyfer goresgyn perffeithio ac ysgrifennu eich traethawd ymchwil.
- Sut i baratoi ar gyfer eich viva.
- Datblygu meddylfryd arweinyddiaeth broffesiynol gan ddefnyddio'r system 'Choices'.
- Y 'Gofod Anadlu 3 munud' i ddatblygu mwy o gadernid emosiynol yn y camau terfynol.
- Technegau ac ymarferion hyfforddi i ddatgelu gyrfa yn y dyfodol sy'n eich ysbrydoli.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1
D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 12fed Chwefror 2020 a dydd Mercher 20fed Mai 2020,
Sesiwn yn cychwyn am 9.30am tan 12.30pm,
Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest,

Uchafswm maint dosbarth: 25

Ysgrifennu ar gyfer Cynulleidfa Gyhoeddus

Bydd y dosbarth meistr hwn dan arweiniad Ruth Dawson, Golygydd Cymru ar gyfer The Conversation (TC) yn cefnogi myfyrwyr PhD yn eu blwyddyn olaf, i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus ehangach. Bydd mynychwyr yn ennill ymarfer ymarferol gan gynhyrchu 'pitch' amlinellol ar gyfer erthygl a bydd digon o gyfle ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth. Bydd hefyd sesiynau cyngor un-i-un gyda'r golygydd yn y prynhawn.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A3
B Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C3
D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 22ain Mai 2020.
Sesiwn yn cychwyn am 9.30am a bydd yn para am 3 awr.
Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Mae'r gweithdai canlynol yn berthnasol i holl fyfyrwyr PGR:

Sgiliau Cyflwyno: Sut i gyfleu eich neges

Bydd y sesiwn hon yn trafod sut i baratoi ar gyfer eich cyflwyniad; beth i'w gynnwys, sut i gyfleu eich neges, dylunio a pharatoi PowerPoint.

Parthau RDF:

- B** Effeithiolrwydd Personol: B1
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiad: 20fed Mai 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 1.30pm a bydd yn para am 2 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

NVivo ar Redeg

Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno'r cyfranogwyr i'r meddalwedd ansoddol NVivo, y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo i ddadansoddi data ansoddol megis cyfweiliadau, grwpiau ffocws a holiaduron.

Parthau RDF:

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A2
- B** Effeithiolrwydd Personol: B3
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 27ain Tachwedd 2019 (EM021) a dydd Mercher 1af Ebrill 2020 (AB102).

Sesiynau yn dechrau am 10am a byddant yn para am 2 awr.

Lleoliad: EM021, Adeilad Elaine Morgan, Campws Glyn-taf (Tachwedd).

AB102, Adeilad Aneurin Bevan, Campws Glyn-taf (Ebrill).

Uchafswm maint dosbarth: 12

Diwrnod Cyflwyno Ymchwilyr Ôl-raddedig

Dyma gyfle gwych i ymchwilyr ennill profiad gwerthfawr wrth gyflwyno ac amddiffyn eu hymchwilyr drwy roi cyflwyniad llafar, poster neu gyflwyniad 3MT ac ateb cwestiynau gan y panel beirniadu a chynulleidfa staff a myfyrwyr o bob rhan o'r Brifysgol. Rhoddir gwobrau am y cyflwyniadau gorau. Cyflwynir enillwyr y cyflwyniadau 3MT i'r gystadleuaeth genedlaethol.

Parthau RDF:

- A Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A3
- B Effeithiolrwydd Personol: B3
- D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiad: 17eg Mehefin 2020.

Digwyddiad drwy'r dydd.

Lleoliad: i'w gadarnhau.

Byddwch Ddistaw ac Ysgrifennu!

Beth bynnag yr ydych yn ysgrifennu, boed yn bennod traethawd ymchwilyr, cais am grant, adolygiad llenyddiaeth, papur cynhadledd neu'r nofel honno sydd wastad wedi bod yn och chi, mae'r sesiwn hon yn cynnig lle cefnogol ac ychydig yn gymhellol i wneud hynny; bydd y sesiwn hon yn rhoi amser di-dor, strwythuredig i chi ysgrifennu.

Sut mae'n gweithio:

Cyrraedd amser cychwyn wedi'ch arfogi gyda nodiadau/syniadau/papur/beiros/gliniadur/ysbrydoliaeth.

Cael 15 munud i yfed coffi, sgwrsio a threfnu eich lle.

Mae'r cyfrif cyntaf yn cychwyn am 30 munud, distawrwydd ac rydych chi'n ysgrifennu.

Mae amserydd yn gorffen ac mae gennych 15 munud i ail-lenwi eich coffi, ymestyn a chyfnewid ffraethineb ffraeth, yna ffwrdd â ni am 30 munud arall.

Mae'r amserydd yn gorffen, rydych wedi ysgrifennu pethau, rydych yn teimlo'n rhagorol, rydych chi'n addo dychwelyd i'r sesiwn nesaf.

Parthau RDF:

- A Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A3
- B Effeithiolrwydd Personol: B1, B2

Dyddiadau: dydd Mercher olaf bob mis.

Sesiynau i redeg am 2 awr o 12 canol dydd tan 2pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Trefforest.

Sgiliau Cyfryngau Cymdeithasol i Ymchwilyr

Nod y seminar hwn yw cyflwyno myfyrwyr i gyfryngau cymdeithasol a darganfod ffyrdd o ddatblygu'r defnydd o dechnolegau newydd megis technoleg symudol. Gall datblygu sgiliau cyfryngau cymdeithasol gefnogi dysgu myfyrwyr a chryfhau eu profiad ar-lein.

Parthau RDF:

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A3
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C3
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 22ain Ebrill 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 10am a bydd yn para am tua 2 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Ehangu Gorwelion – Academyddion Mentrus ac Entrepreneuriaid Academiaidd

Bydd myfyrwyr yn cael cyngor arbenigol gan academyddion ac entrepreneuriaid mentrus ar sut i wneud y gorau o'u hymchwil a'u sgiliau ar ôl eu hastudiaeth. Byddant hefyd yn cael cyfle i ddysgu mwy am Eiddo Deallusol a'r effaith ar eu hymchwil a sut mae eu sgiliau ymchwil a meddwl beirniadol yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio gan gyflogwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.

Parthau RDF:

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A3
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B3

Dyddiadau: Dydd Mercher 13eg Mai 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 12 canol dydd tan 4pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Cyflwyniad i Fynediad Agored

Nod y sesiwn hon yw cyflwyno'r pwnc mynediad agored i ôl-raddedigion a bydd yn ymdrin â pheth o'r cefndir a'r ffactorau sy'n sbarduno pam y mae'n chwarae rhan gynyddol bwysig mewn ymchwil fodern.

Bydd y sesiwn yn cynnwys gwybodaeth am y prif bolisiâu mynediad agored, gan gynnwys y polisi REF OA yn ogystal â'r dull gweithredu gan UKRI. Ymhlith y meysydd eraill dan sylw mae trwyddedau mynediad agored, polisiâu cyhoeddwr ar OA ac ystorfeydd sefydliadol.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C1
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 11eg Rhagfyr 2019 a dydd Mercher 11eg Mawrth 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9am am 3 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Cyflwyniad i Reoli Data Ymchwil

Nod y sesiwn hon yw cyflwyno'r pwnc Rheoli Data Ymchwil (RDM) i ôl-raddedigion.

Mae RDM wedi dod yn rhan hanfodol o weithgarwch ymchwil er mwyn gwneud gwaith ymchwil yn hygyrch a'i ailgynhyrchu. Mae rheoli'r elfennau data o unrhyw brosiect ymchwil yn gymhleth a bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o sut i reoli data fel rhan o arfer ymchwil da.

Ymhlith y meysydd a drafodir yn y sesiwn mae ysgrifennu cynlluniau rheoli data, atebion archifol ar gyfer mynediad tymor hir i ddata a chreu metadata ar gyfer ymchwil.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C1
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 11eg Rhagfyr 2019 a dydd Mercher 11eg Mawrth 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 1pm i 4pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Cynhyrchu effaith o'ch PhD

Mae cynhyrchu effaith gymdeithasol, diwylliannol ac economaidd o'ch PhD yn gam hanfodol ar yr ysgol yrfa. Gall dangos effaith o'ch PhD eich gosod ar wahân ac ychwanegu gwerth gwirioneddol i ddarpar gyflogwr, p'un a ydych yn edrych ar yrfa yn y byd academiaidd neu yrfa nad yw'n un academiaidd. Gall cyfleoedd o ran effaith droi'n gyfleoedd gwaith yn aml.

Bydd y gweithdy hwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil a goruchwylwyr yn canolbwyntio ar egwyddorion arfer gorau ar gyfer gwreiddio effaith yn eich PhD.

Parthau RDF

- A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1, A3
- B Effeithiolrwydd Personol: B3
- C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C1, C2
- D Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 25ain Mawrth 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9.30am tan 12.30pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Cyflwyniad i Ddadansoddiad Ystadegol gan ddefnyddio R

Cwrs dwys undydd yw hwn ar R. Bydd y cwrs hwn yn gymysgedd o ddarlithoedd ac ymarferion cyfrifiadurol. Y Prif ffocws fydd cyflwyno cysyniadau sylfaenol. Ni thbyr bod unrhyw wybodaeth am raglennu o unrhyw fath ymlaen llaw. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod eang o ymgeiswyr.

Amlinelliad o'r cwrs:

- Cyflwyniad i R: Trosolwg cryno o gefndir a nodweddion y system raglennu ystadegol.
- Cofnodi Data: Disgrifiad o sut i fewnforio ac allforio data o R.
- Mathau o ddata: Crynodeb o fathau data R.
- R Amgylchedd: Disgrifiad o'r amgylchedd R gan gynnwys y cyfeiriadur gwaith, creu/defnyddio sgriptiau, arbed data a chanlyniadau.
- R Graffeg: creu, golygu a storio graffeg yn R.
- Trin data yn R: disgrifio sut y gellir trin data yn R gan ddefnyddio gweithredwyr rhesymegol.

Anogir cyfranogwyr i gysylltu â chyflwynydd y cwrs cyn y cwrs am fwy o wybodaeth gan gynnwys defnyddio gliniaduron eich hun fel y gellid gosod meddalwedd cyn y cwrs.

Parthau RDF

- A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1, A2
- B Effeithiolrwydd Personol: B3
- C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C2

Dyddiadau: Dydd Mercher 29 Ionawr 2020 a 10fed Mehefin 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9.30 am ac yn dod i ben am 5pm, rhennir y sesiwn i sesiynau 1 awr a hanner.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Dadansoddiad Ystadegol uwch gan ddefnyddio R

Cwrs dwys undydd yw hwn sydd wedi'i anelu at ymchwilwyr sy'n dymuno ehangu eu gallu i ddefnyddio'r feddalwedd ystadegol amgylchedd meddalwedd ar gyfer uwch ddadansoddiadau ystadegol. Mae'r cwrs hwn yn cymryd profiad blaenorol wrth ddefnyddio R (e.e. 'Cyflwyniad i Ddadansoddiad Ystadegol gan ddefnyddio R').

Bydd y cwrs hwn yn canolbwyntio ar y fethodoleg a'r defnydd o R i gynnal dadansoddiad data cysylltiedig. Dyma rai o'r tasgau ystadegol a gwmpesir yn y cwrs: Dadansoddiad o Amrywiant/Cydamrywiant, Atchweliad Llinol Syml a Lluosog, Dadansoddiad data pendant gan gynnwys prawf Chi-sgwâr a Dadansoddiad gohebiaeth, Dadansoddiad amlamrywedd gan gynnwys Prif gydrannau a Dadansoddi ffactorau, Dosbarthu a Chlystyru. Defnydd o ddata o arbrofion ac arolygon.

Bydd peth deunydd cwrs (gan gynnwys deunydd generig, cyffredin ar y rhyngwyd) ar gael cyn y cwrs. Anogir cyfranogwyr i gysylltu â chyflwynydd y cwrs cyn y cwrs gydag awgrymiadau ar gyfer pynciau y gellid ymdrin â hwy yn ystod neu ar ôl y cwrs.

Parthau RDF

- A Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1, A2
- B Effeithiolrwydd Personol: B3
- C Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C2

Dyddiadau: Dydd Mercher 19 Chwefror 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9.30am ac yn dod i ben am 5pm, rhennir y sesiwn i sesiynau 1 awr a hanner. Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Technoleg a Theclynnau: dewis o blith dros 1000 o opsiynau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhyddhawyd sawl teclyn digidol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gynorthwyo'r broses ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys llwyfannau ar-lein ar gyfer darganfod a choladu'r llenyddiaeth berthnasol, gwefannau i hybu'ch proffil ar-lein a denu sylw am eich allbynnau ymchwil, offer rheoli prosiect a chynhyrchiant ysgrifennu. Gall yr amrywiaeth helaeth hon o (oddeutu 1,000) declynnau fod yn llethol ac yn cymryd llawer o amser i ddysgu felly sut mae ymchwilwyr yn gwybod beth i'w ddefnyddio?

Bydd y gweithdy hwn yn cyflwyno ymchwilwyr i ddetholiad o declynnau a all ategu'r broses ymchwil gan gynnwys agweddau megis chwilio llenyddiaeth, rheoli prosiectau, gweledd proffil, rhyngweithio a chydweithio. Darperir adnoddau a gwybodaeth ychwanegol hefyd fel y gall cyfranogwyr archwilio teclynnau eraill yn eu hamser eu hunain ac anogir pawb i rannu ac argymhell adnoddau. Mae cydran allweddol o'r gweithdy yn cynnwys y cyfle i gyfranogwyr ddefnyddio matrices teclyn Electv i ddylunio eu strategaeth ddigidol eu hunain yn seiliedig ar eu harddull gweithio a'u dewisiadau unigol.

Bydd y gweithdy'n cynnwys arddangosiadau byr, astudiaethau achos, trafodaethau grŵp ac enghreifftiau o brofiad yr hyfforddwr ei hun.

Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd ymchwilwyr:

- Wedi'u cyflwyno i ystod o declynnau digidol y gellir eu defnyddio i wella'r broses ymchwil.
- Ystyried pa agweddau ar eu gwaith allai elwa o ddefnyddio offer digidol perthnasol a'r Heriau sy'n gysylltiedig â'r rhain.
- Cychwyn cynllun a strategaeth ddigidol sy'n gweddu i'w harddull gweithio eu hunain.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1
- B** Effeithiolrwydd Personol: B2
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C2
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 19 Chwefror 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9.30 am ac yn dod i ben am 5pm, rhennir y sesiwn i sesiynau 1 awr a hanner.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Rheoli amser, cymhelliant a blaenoriaethu'ch llwyth gwaith

Nid yw rheoli amser a chymhelliant yn golygu gweithio mwy, mae'n ymwneud â gweithio'n fwy doeth. Cynlluniwyd y gweithdy hanner diwrnod hwn yn benodol ar gyfer ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau rheoli amser ac optimeiddio eu horiau gwaith. Gyda gweithgareddau ymchwil, cadw i fyny â'r llenyddiaeth, cyhoeddi, tiwtora ac ysgrifennu i'w hystyried, gall fod yn heriol i ymchwilwyr ffitio popeth i mewn. Sut ydych chi'n gorffen popeth pan fyddwch o dan bwysau? Pam nad oes byth digon o amser i wneud yr hyn yr ydych am ei wneud?

Yn y gweithdy hwn, cyflwynir cyfranogwyr i dechnegau i wneud y gorau o'u hamser a thrafod patrymau gweithio gydag eraill. Bydd cyfranogwyr yn gwerthuso'r hyn y maent yn treulio'u hamser arnynt ar hyn o bryd, beth yr hoffent ei flaenoriaethu, sut i fesur eu cynnydd a sut i gadw cymhelliant drwy ystyried beth sy'n gweithio orau iddynt. Bydd y gweithdy yn cynnwys ymarferion unigol, cyflwyniadau byr gan yr hyfforddwr, trafodaethau grŵp ac enghreifftiau o arfer da.

Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd gan ymchwilwyr:

- Gwybodaeth am sut i gymhwysu'r technegau hyn i'w harddull weithio personol eu hunain.
- Dealltwriaeth o'u blaenoriaethau a sut i wneud y gorau o'u hamser.
- Strategaeth rheoli amser y gellir ei haddasu'n rheolaidd i weddu i'w llwyth gwaith.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol: A1
- B** Effeithiolrwydd Personol: B2
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C2
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D2

Dyddiadau: Dydd Mercher 4ydd Mai 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 1pm ac yn dod i ben am 4.30pm.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 25

Gweithdy Ysgrifennu Ceisiadau Grant

Bydd cyfranogwyr sy'n mynychu'r gweithdy yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r broses o ymgeisio am grant yn gweithio. Byddant hefyd yn datblygu strategaeth sylfaenol a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o ba fathau o grantiau y dylent wneud cais amdanynt, pryd y mae'n well gwneud cais a sut i ysgrifennu eu ceisiadau yn gyflym ac yn effeithlon.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A3
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C3
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 5ed Chwefror 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 9.30am a bydd yn para am 3 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Deall Effaith Ymchwil

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyflwyniad i effaith ymchwil, gan gynnwys gyrrwyr a buddion, yr heriau sy'n codi o ran effaith ac egwyddorion sylfaenol effaith. Bydd yn rhoi lle i gyfranogwyr feddwl am yr hyn y mae effaith yn ei olygu iddynt yng nghyd-destun eu hymchwil eu hunain. Mae'r gweithdy yn un rhyngweithiol gyda digon o gyfle ar gyfer trafodaeth a chwestiynau.

Parthau RDF

- A** Gwybodaeth a Galluedd Deallusol: A1, A3
- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- C** Llywodraethu a Threfniadaeth Ymchwil: C3
- D** Ymgysylltiad, Dylanwad ac Effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 5ed Chwefror 2020.

Sesiwn yn cychwyn am 1pm a bydd yn para am 3 awr.

Lleoliad: TC104, Ysgol Graddedigion, Adeilad Tŷ Crawshay, Campws Trefforest.

Uchafswm maint dosbarth: 30

Mae'r gweithdai canlynol wedi'u hanelu at staff sy'n cynnal gwaith goruchwyllo ymchwil ôl-raddedig.

Dylid nodi bod y sesiynau hyn yn orfodol, rhaid i bob goruchwyllydd sicrhau eu bod yn cyflawni rhyw agwedd ar hyfforddiant a/neu ddatblygiad goruchwyllo ymchwil ôl-raddedig bob tair blynedd.

Datblygu Arferion Gorau wrth Oruchwyllo Ymchwil gyda John Wakeford

Mae Cod Ymarfer Graddau Ymchwil yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sydd wedi'u penodi fel goruchwyllydd ymchwil gael hyfforddiant perthnasol a meddu ar y sgiliau perthnasol. Bydd y cwrs hwn o fudd i oruchwylwyr newydd a rhai profiadol sy'n gallu tynnu ar eu profiadau eu hunain. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o arferion da (a gwael!) i'w trafod. Rhaid i bob aelod o staff sy'n newydd i Oruchwyllo Ymchwil Ôl-raddedig fynd i'r ddwy sesiwn.

Meysydd Fframwaith Datblygu Ymchwil:

- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- D** Ymgysylltu, dylanwad ac effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 14 Hydref 2019 (Modiwlau 1 a 2) a dydd Mercher 18 Mawrth 2020 (Modiwlau 3 a 4)

Bydd y sesiynau'n cychwyn am 9.15yb, yn ddiwrnod o hyd ac yn gorffen am 4.30yp ar y cynharaf.
Lleoliad: TC104, Ysgol y Graddedigion, Tŷ Crawshay, Campws Trefforest

Goruchwyllo Ymchwil ar Fynd

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ddarparu hyfforddiant i staff sy'n rhan o waith recriwtio a goruchwyllo myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r gweithdy hwn yn trafod proses dderbyn y Brifysgol, rheoliadau ymchwil, gofynion a disgwyliadau sydd ar bawb sy'n adolygu ceisiadau graddau ymchwil a goruchwylwyr myfyrwyr ymchwil. Mae hyn yn hanfodol i bob goruchwyllydd newydd a goruchwylwyr presennol sy'n dymuno diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y maes hwn.

Meysydd Fframwaith Datblygu Ymchwil:

- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- D** Ymgysylltu, dylanwad ac effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 16 Hydref 2019, dydd Mercher 22 Ionawr 2020, dydd Mercher 18 Mawrth 2020

Bydd y sesiynau'n ddwy awr o hyd ac yn dechrau am 12yp, a chaiff cinio ei ddarparu.
Lleoliad: TC104, Ysgol y Graddedigion, Tŷ Crawshay, Campws Trefforest
CA A118, Atrium, Campws Caerdydd (Mawrth)

Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithredu fel arholwyr Mewnol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a/neu'n gweithredu fel Cadeirydd arholiad viva voce fynd i'r gweithdy canlynol.

Seminar Arholi Gradd a Chadeirio Viva

Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar brosesau a rheoliadau arholi Prifysgol De Cymru - a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'r broses arholi yn datblygu'n barhaus, a chaiff rheoliadau graddau ymchwil Prifysgol De Cymru eu diweddarau bob blwyddyn. Mae'n bosib y bydd newidiadau bychain ond nodedig nad ydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw, a gallai hyn effeithio ar y broses arholi. Mae'n fforwm gwych i staff ymchwil, p'un a ydych chi'n oruchwylydd, yn arholwr/cadeirydd am y tro cyntaf neu'n Athro profiadol.

Yr Athro Paul Roach, Pennaeth Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig ac Ysgol y Graddedigion Prifysgol De Cymru fydd yn darparu'r sesiwn, ond rydyn ni'n croesawu rhannu arferion da (a gwael!).

Meysydd Fframwaith Datblygu Ymchwil:

- B** Effeithiolrwydd Personol: B1, B2, B3
- D** Ymgysylltu, dylanwad ac effaith: D1, D2, D3

Dyddiadau: Dydd Mercher 20 Tachwedd 2019, dydd Mercher 26 Chwefror 2020, dydd Mercher 13 Mai 2020 (Caerdydd)

Bydd pob sesiwn yn dechrau am 12yp ac yn ddwy awr o hyd (caiff cinio ei gynnwys)

Lleoliad: TC104, Ysgol y Graddedigion, Tŷ Crawshay, Campws Trefforest (Tachwedd)
TC104, Ysgol y Graddedigion, Tŷ Crawshay, Campws Trefforest (Chwefror)
CAD308, Atrium, Campws Caerdydd (Mai)

Cwestiynau Cyffredin

1. Beth yw pris gweithdy?

Mae pob gweithdy rydyn ni'n ei gynnig am ddim i bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig a staff ymchwil. Fodd bynnag, os yw unigolion yn cofrestru ar gyfer digwyddiad ac yn peidio â dod heb roi gwybod i ni ymlaen llaw na fyddan nhw'n gallu dod (ar fwy nag un achlysur) yn cael ffi o £50 drwy eu Cyfadran.

2. Ydw i'n gymwys i ddod?

Mae pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig a staff ymchwil yn gymwys i ddod i'r gweithdai.

3. Sut mae archebu lle mewn gweithdy?

Mae llefydd ar y cyrsiau yn gyfyngedig, ac rydyn ni'n cynghori eich bod chi'n archebu lle. Cysylltwch ag Ysgol y Graddedigion yn uniongyrchol i archebu lle drwy e-bostio gradschool@decymru.ac.uk

4. Beth fydd yn digwydd os bydd y gweithdy'n llawn? Caiff system rhestr aros ei gweithredu pan fo sesiwn yn llawn. Os oes galw uchel, mae'n bosib y byddwn ni'n trefnu sesiynau eraill os yw adnoddau yn caniatáu.

5. A gaiff lluniaeth ei ddarparu?

Os yw'r sesiwn rydych chi'n mynd iddi yn ddiwrnod o hyd neu yn ystod amser cinio (12-2) yna mae'n bosib y bydd cinio'n cael ei ddarparu.

6. Ble caiff y gweithdai eu cynnal?

Mae ystafelloedd TC103 a TC104 yn Ysgol y Graddedigion yn Nhŷ Crawshay ar Gampws Trefforest. Mae pob ystafell arall sy'n dechrau gyda TC wedi'u lleoli yn Nhŷ Crawshay, Campws Trefforest. Mae ystafelloedd EM020 ac EM021 yn adeilad Elaine Morgan ar Gampws Glyntaf. Mae ystafelloedd sy'n dechrau gyda CA yn yr Atrium, Campws Caerdydd.

7. Sut mae canslo lle?

Os nad ydych chi'n gallu mynd i weithdy ar ôl archebu lle, anfonwch e-bost at gradschool@decymru.ac.uk o leiaf 24 awr ymlaen llaw.

8. A yw'r gweithdai datblygu sgiliau'n ofynnol?

Mae rhai o'r rhain yn ofynnol (mae hyn wedi'i nodi yn yr achosion hynny), ond mae'r rhan fwyaf yn ddewisol. Cynghorir chi i drafod eich anghenion a'r Fframwaith Ymchwil Ôl-raddedig gyda'ch goruchwylydd yn eich sesiwn adolygu chwe mis a nodi'r hyfforddiant a'r datblygiad rydych chi'n teimlo fydd o fudd i chi. Os ydych chi a'ch goruchwylydd yn cytuno nad oes angen i chi fynd i hyfforddiant, ni fydd disgwyl i chi wneud hynny.

9. Ble galla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgol y Graddedigion Prifysgol De Cymru:

E-bost: gradschool@decymru.ac.uk